COMISIYNWYR YR HEDDLU A THROSEDDU

BWLETIN PCC CYMRU

Rhif 10 – 6ed Gorffennaf 2012

Y degfed bwletin hwn yw'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau rheolaidd i'ch hysbysu o'r datblygiadau ar gyfer cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs) ym mis Tachwedd 2012. Mae'r cyhoeddiad hwn

yn cynnwys:

- **Y newyddion diweddaraf ar ddatblygiad y Paneli Heddlu a Throseddu;**
- **Gwybodaeth bellach ar gyfathrebiadau PCC y Swyddfa Gartref – yn cynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd a thudalennau gwe PCC newydd y Swyddfa Gartref;**
- **Manylion Cynhadledd Genedlaethol yr LGA a gynhaliwyd ddiwedd Mehefin;**
- **Manylion cynhadledd gyntaf Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC);**
- **DCC Rob Beckley yn ysgrifennu am ymgysylltiad yr heddlu â'r sector VCSE; a'r**
- **Prosiect Eiriolwr Gwasanaeth i Ddioddefwyr.**

Datblygiad y Paneli Heddlu a Throseddu

Yn dilyn gwaith ar y cyd â phartneriaid yng Nghymru, gan gynnwys trafodaeth fuddiol gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, bu datblygiad sylweddol o ran sefydlu PCPau ym mhob un o'r bedair ardal heddlu. Er bod gwahaniaeth rhwng y dulliau gweithredu sy'n bodoli yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr, buom yn dilyn amserlen gyffredinol fras yn y ddwy wlad a chynnig yr un cyfleoedd i lywodraeth leol yng Nghymru i sefydlu paneli a gwneud trefniadau â'r hyn sy'n bodoli ar gyfer eu cymrodyr yn Lloegr.

Ysgrifennodd Stephen Rimmer, y Cyfarwyddwr Plismona a Throseddu Cyffredinol, at bob awdurdod lleol yng Nghymru ar 29 Mehefin i gyflwyno manylion pellach ar yr amseru a'r broses o sefydlu trefniadau panel a phenodi cynghorwyr, i'w mabwysiadu gan yr Ysgrifennydd Cartref. Mae'r dyddiad pennu ar reoliadau cefnogol yn golygu bod yna yn awr ddyddiad terfynol estynedig sef 16 Gorffennaf i awdurdodau gyflwyno'r manylion ynghylch eu paneli.

Mae dwy set o reoliadau ynghylch sefydlu paneli wedi eu pennu yn y Senedd y mis hwn. Gan fod y trefniadau ar gyfer ffurfio PCPau yng Nghymru yn wahanol i'r rhai yn Lloegr, dim ond rhai elfennau o'r set gyntaf o reoliadau, Rheoliadau'r Paneli Heddlu a Throseddu (Enwebiadau, Penodiadau a Hysbysiadau) 2012 sydd yn berthnasol i Gymru, rheoliadau 6-9 yn benodol. Mae'r rheoliadau hyn yn pennu pa wybodaeth sydd angen ei ddarparu ar Baneli i'r Swyddfa Gartref, sut i wneud hynny a'r dyddiad terfynol i gyflwyno'r wybodaeth hon.

Diweddariad ar Gyfathrebiadau

Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Rydym ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau creadigol, yn cynnwys y potensial i hysbysebu ar deledu a radio, ar gyfer ymgyrch codi ymwybyddiaeth cenedlaethol PCC. Yn y cyfamser mae'r Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol, Nick Herbert, wedi bod yn siarad mewn nifer o ddigwyddiadau'n ymwneud ag ymgeiswyr PCC. Yn ddiweddar mae'r pwnc wedi ei drafod hefyd yn y Daily Telegraph, y Times ac amrywiol gyfryngau rhanbarthol ar gyflwyno PCCau. Mae llawlyfr cyfathrebiadau PCC hefyd yn cael ei ddatblygu fydd yn gymorth i'ch gweithgareddau cyfathrebu

unigol chi, a rhoi'r cyngor diweddaraf i gyfathrebwyr heddluoedd ac awdurdodau heddlu.

Tudalennau gwe PCC newydd

Lansiwyd adran PCC newydd ar wefan y Swyddfa Gartref yr wythnos hon. Mae'r tudalennau yn cynnwys gwybodaeth ar PCCau ar gyfer y cyhoedd, partneriaid, a darpar ymgeiswyr. Mae'n cynnwys rhan gyntaf y cyfarwyddiadau cenedlaethol ar gyfer ymgeiswyr. Mae'r safle'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf mewn fformat hawdd cael mynediad ato. Mae ar gael wrth ddilyn y ddolen ganlynol:

http://www.homeoffice.gov.uk/pcc

Cynhadledd Genedlaethol LGA

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol y Gymdeithas Llywodraeth Leol o'r 26-28ain Mehefin. Ar y diwrnod olaf bu Michael Crick o Channel 4 News yn cadeirio sesiwn lawn yn archwilio'r modd y mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn paratoi ar gyfer PCCau, y modd y mae Paneli Heddlu a Throseddu yn darparu gwiriadau a cydbwyseddau cadarn, a disgwyliadau ymgeiswyr ynghylch gweithio gyda llywodraeth leol. Siaradodd y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol Nick Herbert yn y sesiwn PCC awr ginio, gyda thua 50 o'r sawl sydd wedi datgan eu hunain yn ymgeiswyr yn bresennol cyn ateb cwestiynau ochr yn ochr â Syr Hugh Orde (Llywydd, ACPO), Sue Howl (Prif Weithredwr, Awdurdod Heddlu Dyfnaint a Chernyw) a chynrychiolydd o'r Comisiwn Etholiadol.

Cynhadledd Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (APCC)

Mae Nathan Oley, pennaeth materion cyhoeddus a'r wasg Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu (APA), yn ysgrifennu am y Gynhadledd APCC gyntaf a gynhaliwyd ar gyfer darpar ymgeiswyr a phartïon oedd â diddordeb.

Corff ambarel yw'r APCC ar gyfer PCCau etholedig a holl gyrff llywodraethu plismona yng Nghymru a Lloegr. Dechreuodd ei raglen o gefnogaeth ar gyfer darpar PCCau gyda digwyddiad briffio byr ar **29ain Mehefi**n. Yn y seminar yn ystod y dydd cyflwynwyd gwybodaeth hanfodol ar gyfer darpar ymgeiswyr a phobl eraill oedd â diddordeb mewn deall mwy am rôl y PCCau, a'r tirwedd plismona a throseddu cenedlaethol. Roedd y diwrnod yn gyfle i ymgeiswyr archwilio'r modd y bydd PCCau yn cydweithio i ddylanwadu ar gyfeiriad strategol plismona, i lunio corff cynrychioliadol ar gyfer PCCau i'r dyfodol a chanfod pa gefnogaeth allai PCCau fod ei angen. Ymhlith y siaradwyr oedd Syr Denis O'Connor (HMIC), Syr Hugh Orde (ACPO) and Chyfarwyddwr yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Keith Bristow.

Mae rhaglen lawn ar gael yma: http://www.apccs.police.uk/page/june-event

Os oes gennych ymholiadau ynghylch y digwyddiad cysylltwch â enquiries@apccs.police.uk

Hefyd, gwesteiodd yr APA eu trydydd seminar Trawsnewid PCC ar **28ain Mehefin**. Cliciwch yma i weld y rhaglen ar gyfer seminar APA a luniwyd i gynorthwyo aelodau a staff awdurdodau heddlu i baratoi ar gyfer y trawsnewid i PCCau. Ymhlith y siaradwyr oedd y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol, Nick Herbert, Cynrychiolwyr o HMIC, y Comisiwn Etholiadol, a swyddogion etholiad.

ACPO – Ymgysylltiad â'r Sector VCSE

Mae DCC Rob Beckley o Gwnstabliaeth Avon a Gwlad yr Haf yn ysgrifennu am raglen ACPO ar gyfer Dinasyddion mewn Plismona.

Fel arweinydd ACPO ar y rhaglen Dinasyddion mewn Plismona, yn cynnwys Gwirfoddolwyr

Cefnogi'r Heddlu, Gwylio Cymdogaeth ac ymgysylltiad y Trydydd Sector gyda phlismona, rwyf wedi bod yn chwilio am fodd i gwpiau cymunedol a gwirfoddol ymgysylltu mwy â'r genhadaeth plismona. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu partneriaeth gyda Clinks, sydd ynghyd â phartneriaid eraill VCSE wedi arwain ar y prosiect Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yn arwain ar y gwaith hwn yng Nghymru. Mae hyn yn cynorthwyo'r sector i baratoi ar gyfer dyfodiad y PCCau a chwarae rhan bwysig yn y modd y cyflawnir gwasanaethau fydd yn bodloni anghenion cymunedau.

Ar 19[eg4] Mehefin, cefais y pleser o siarad mewn cynhadledd ar y cyd rhwng ACPO a Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol, oedd yn gyfle gwych i arweinwyr Rhwydwaith Cymunedau Diogelach i'r Dyfodol a phartneriaid yr heddlu drafod y modd y gallent gydweithio'n fwy agos yn y dyfodol. Clywsom beth cyngor defnyddiol ar y modd y gallai trefniadau comisiynu yn y tirwedd newydd weithio yn ogystal ag enghreifftiau o arfer da sy'n bodoli eisoes.

Roedd cyfle hefyd i rwydweithio anffurfiol rhwng yr arweinwyr a'u cysylltiadau o fewn yr heddlu, a oedd yn caniatáu deialog onest am rai o'r heriau a'r ansicrwydd oedd o'u blaenau a'r datrysiadau posibl. Roedd yr heddlu ac arweinwyr rhwydwaith yn cytuno eu bod yn rhannu nod cyffredin o wasanaethu cymunedau lleol a'u cynorthwyo i deimlo'n ddiogel.

Prosiect Eiriolwr Gwasanaeth i Ddioddefwyr

Mae eiriolwyr wedi bod yn gyfrifol am ddrafftio 42 adroddiad lleol (ar gyfer pob ardal heddlu) i gynorthwyo rhoi gwybodaeth yn benodol am ddyletswydd y PCCau i gymryd safbwyntiau dioddefwyr i ystyriaeth wrth ddatblygu eu cynlluniau. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Victim Support yn:

http://www.victimsupport.org.uk/About-us/Policy-and-research/Victims-services-advocates

Bydd yr adroddiadau hyn yn adnodd lleol defnyddiol ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fydd yn cychwyn ar eu swyddi a rhanddeiliaid sydd ynghlwm wrth gynllunio a chyflawni gwasanaethau i ddioddefwyr i'w cynorthwyo i fod yn fwy ymwybodol o faterion lleol penodol sy'n ymwneud â dioddefwyr. Yn ogystal â'r adroddiadau lleol, bydd trosolwg cenedlaethol o'r canlyniadau fydd yn sefyll ochr yn ochr â'r adroddiadau lleol ar wefan Victim Support.

Byddwn yn anfon bwletinau rheolaidd drwy gydol cyfnod cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cysylltwch â ni yn PCCPartnersEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk i'ch hysbysu o'r hyn yr ydym yn ei wneud, yr hyn ydym yn ei gynllunio a'r cyfleoedd i chi fod ynghlwm wrth hynny. Byddwn hefyd yn ymateb i unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sydd gennych.

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau a chwestiynau trwy gydol y broses ddatblygu a gweithredu.